# Newid Meddyliau/
# Changing Minds

Wedi'i ariannu gan

Funded By

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

## Gweithiwr Archwilio Lles – Profion MOT Iechyd Meddwl

## / Wellness Check Worker – Mental Health MOTs

Last Updated: 29th August 2024

# Croeso i Mind Conwy!

Yn y pecyn hwn, fe ddylech chi ddod o hyd i'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gael gwybod beth rydyn ni'n ei wneud.

Mae hyn yn cynnwys:

- Mwy amdanom ni, yr hyn rydyn ni'n credu ynddo a'n gwerthoedd
- Y broses gwneud cais
- Y disgrifiad swydd a manyleb y person
- Beth rydyn ni'n ei ddisgwyl gan ein staff
- Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

## Ein Sefydliad

Mae Mind Conwy yn elusen iechyd meddwl yn Abergele sy'n gysylltiedig â Mind Cenedlaethol. Rydyn ni'n gweithio i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â diagnosis iechyd meddwl ac yn cefnogi pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl i greu llwybr at adferiad a gweithredu o dan Mind Gogledd-orllewin Cymru yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Drwy addysg a chymorth, ein nod yw gwella ymwybyddiaeth pobl o sut i fod yn rhagweithiol wrth ofalu am eu hiechyd meddwl a'u lles.

Mae ein staff yn llysgenhadon i'r sefydliad. Maen nhw'n frwdfrydig ac yn falch o weithio i Mind Conwy. Maen nhw'n gadarnhaol, yn hyderus ac maen nhw bob amser yn barod i helpu ac i weithio fel rhan o'r tîm i gyflawni ein Diben. Mae ein diwylliant yn ymwneud ag ymddiriedaeth, creadigrwydd a chydweithio fel tîm. Rydyn ni'n annog staff i fod yn nhw eu hunain ac i ddefnyddio eu menter a'u syniadau eu hunain wrth wneud penderfyniadau. Rydyn ni wrth ein bodd yn datblygu ein pobl, yn darparu cyfleoedd hyfforddi ac ymestyn, ac yn annog datblygiad gyrfa.

Lleolir y swydd hon mewn swyddfeydd yn Abergele.

## Ein Hamcanion Strategol:

Ein Hamcanion Strategol yw:

- Cyrraedd cymaint o bobl â phosibl: Sicrhau bod pobl yn deall iechyd meddwl yn well a sut y gallant gefnogi eu hunain a phobl eraill.
- Codi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael â'r stigma ar draws ein cymunedau.
- Datblygu ac ehangu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed a'r rhai sy'n eu cefnogi.
- Adeiladu sefydliad cynaliadwy sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac sydd yn y sefyllfa orau i ymateb i gyfleoedd sydd ar y gorwel.

## Ein Gwerthoedd:

Beth mae ein gwerthoedd yn ei olygu i ni.

- Rydyn ni'n rhoi pobl yn gyntaf
- Rydyn ni'n gryfach gyda'n gilydd
- Rydyn ni'n codi llais dros yr hyn sy'n iawn
- Rydyn ni bob amser yn dysgu
- Rydyn ni'n mynnu gwell ar gyfer iechyd meddwl

**Beth mae pobl yn ei ddweud amdanom ni:**

*"Hoffwn ddiolch i'r cwnselydd am ei holl gefnogaeth, ei hamser a'i dealltwriaeth. Roedd hi'n broffesiynol iawn, ac roedd yn helpu cymaint, allwn i ddim bod wedi goroesi'r misoedd diwethaf heb ei hapwyntiadau, ei hamser a'i hanogaeth."*

*"Roedd y cwrs ei hun wedi rhagori ar fy nisgwyliadau, roedd yn llawn gwybodaeth, ac roedd llawer o ddeunydd i gnoi cil arno. Roedd hyfforddwyr y cwrs yn ymgysylltu'n agos iawn â ni i sicrhau ein bod yn gyfarwydd â'r holl ddeunydd yr oedden ni'n ei ddysgu. Mi fyddaf yn argymell y cwrs hwn i'm rheolwr GIG er mwyn i aelodau eraill ei fynychu"*

*"Mae wedi bod yn help mawr. Mae fy llesiant, fy mherthynas â phobl a'm ffordd o feddwl wedi gwella'n aruthrol. Mae CCBT wedi rhoi offer i mi nad oeddwn i'n sylweddoli bod eu hangen arnaf. Mae fy ngŵr a fy merch wedi sylwi ar wahaniaeth mawr ynof fi hefyd ac rydw i'n fwy cadarnhaol yn gyffredinol am bethau"*

*"Diolch yn fawr iawn i chi am eich help. Rydw i'n gwerthfawrogi ac yn cydnabod eich bod wedi mynd yr ail filltir i mi, ac mae wir yn golygu llawer i mi. Mae wedi gwneud gwahaniaeth gwybod bod rhywun gyda mi yn brwydro dros fy achos ac yn fy helpu i gael y cymorth sydd ei angen arna' i"*

*"Roeddwn i'n teimlo'n ddiogel a bod rhywun yn gwrando arna i. Roedd y grŵp yn parchu safbwyntiau a phrofiadau ein gilydd, ac rydw i'n edrych ymlaen at ddod yn rhan o grŵp cymorth i gymheiriaid nawr"*

## Newid Meddyliau:

Ydych chi'n frwd dros iechyd meddwl ac ymyrraeth gynnar? Ymunwch â ni yn ein menter newydd gyffrous, Newid Meddyliau, sy'n canolbwyntio ar drawsnewid sut mae pobl teimlo am eu lles meddyliol ac yn ei reoli.

Mae Newid Meddyliau yn brosiect sy'n cael ei ariannu drwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am 3 blynedd. Mae Newid Meddyliau yn canolbwyntio ar ddarparu ymyrraeth gynnar ar gyfer iechyd meddwl, gyda'r nod o annog unigolion i ofalu'n rhagweithiol am eu hiechyd meddwl, fel y byddent ar gyfer eu hiechyd corfforol. Credwn y dylai archwiliadau iechyd meddwl fod mor rheolaidd a hygyrch ag archwiliadau pwysedd gwaed neu sgrinio iechyd cyffredinol.

Ein cenhadaeth ni yw helpu unigolion i adnabod a mynd i'r afael â phryderon iechyd meddwl cyn iddynt waethygu i'r pwynt lle mae angen ymyrraeth gan feddyg teulu. Drwy addysg, cefnogaeth ac ymgysylltu â'r gymuned, ein nod yw hyrwyddo diwylliant lle mae iechyd meddwl yn cael ei flaenoriaethu a'i gynnal a lle caiff yr un pwysigrwydd ei roi i iechyd meddwl ag iechyd corfforol.

Mae Newid Meddyliau yn ymwneud â chwalu'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, y gwyddom ei fod yn bodoli ac sy'n aml yn rhwystr i bobl gael gafael ar gymorth.

### Pam Ymuno â Ni:

Drwy ddod yn rhan o dîm Newid Meddyliau, byddwch yn:

- **Gwneud Gwahaniaeth:** Chwarae rhan hollbwysig mewn ymyriadau cynnar, gan helpu unigolion i gynnal eu lles meddyliol ac atal problemau iechyd meddwl rhag gwaethygu.
- **Arloesi:** Gweithio mewn tîm deinamig sydd wedi ymroi i greu strategaethau ac adnoddau newydd ar gyfer iechyd meddwl a lles.
- **Tyfu'n Broffesiynol:** Datblygu eich sgiliau mewn cymorth iechyd meddwl, allgymorth cymunedol, ac arferion ymyrraeth gynnar.
- **Rhan o Amgylchedd Cefnogol:** Bod yn rhan o dîm gofalgar a chydweithredol sydd wedi ymrwymo i wneud cymorth iechyd meddwl yn hygyrch a'i normaleiddio.
- Ei gwneud yn haws i bobl deimlo'n gyfforddus, gan greu cymunedau tosturiol.

## Gweithiwr Archwilio Lles – Profion MOT Iechyd Meddwl

Graddfa Cyflog: £23,598 FTE, £15,732 Gwir Gyflog
Lleoliad: Uned 5325, Parc Busnes Gogledd Cymru, Abergele, Conwy, LL22 9HR
Oriau: Amser Llawn – 2 swydd x 18 awr ar gael neu 1 swydd amser llawn x 37.5 awr
Gwyliau Blynyddol: 35 diwrnod pro rata (gan gynnwys gwyliau banc)
Yn atebol i: Arweinydd Tîm – Archwilio Lles
Contract: Cyfnod penodol am 3 blynedd

## Crynodeb o'r Rôl:

Bydd y Gweithiwr Archwilio Lles – Profion MOT Iechyd Meddwl yn gyfrifol am gynnal archwiliadau lles iechyd meddwl. Mae'r rôl hon yn cynnwys cynnal asesiadau, datblygu cynlluniau gweithredu gydag unigolion, cyfeirio at adnoddau cymunedol a chadw cofnodion cywir. Bydd gan y Gweithiwr Archwilio Lles bresenoldeb cryf yn y gymuned, gan hyrwyddo'r gwasanaeth a rhwydweithio gyda sefydliadau eraill.

## Prif Gyfrifoldebau:

### Cynnal Archwiliadau Lles:

- Gweithio ochr yn ochr ag Arweinydd y Tîm i ddatblygu prosesau a gweithdrefnau ar gyfer archwiliadau lles/profion MOT iechyd meddwl.
- Cynnal asesiadau iechyd meddwl gydag unigolion drwy apwyntiadau wedi'u trefnu.
- Datblygu cynlluniau gweithredu personol i gefnogi unigolion i wella eu hiechyd meddwl.
- Darparu archwiliadau dilynol i fonitro cynnydd ac addasu cynlluniau gweithredu yn ôl yr angen.
- Creu pecyn cymorth i'w ddefnyddio mewn sesiynau, gan wybod pa gymorth arall sydd ar gael yn y gymuned

### Ymgysylltu â'r Gymuned a Hyrwyddo:

- Mynd ati i chwilio am bobl sy'n llai tebygol o ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys grwpiau mwy anodd eu cyrraedd ar draws sir Conwy.
- Cynnal presenoldeb allweddol yn y gymuned, gan gysylltu â sefydliadau eraill i hyrwyddo'r gwasanaeth Newid Meddyliau.
- Cefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r gwasanaeth drwy rwydweithio a digwyddiadau cymunedol.
- Rhoi gwybodaeth am iechyd meddwl a lles i'r gymuned.

### Rheoli Achosion:

- Rheoli a bod yn gyfrifol am lwyth achosion personol, gan sicrhau bod pob cleient yn cael cymorth wedi'i deilwra.
- Cyfeirio cleientiaid at sefydliadau perthnasol a grwpiau cymunedol i gael cymorth ychwanegol.
- Cadw cofnodion cywir a chyfredol o ryngweithio a chynnydd cleientiaid.
- Sicrhau bod cronfa ddata'r cleientiaid yn cael ei diweddaru'n rheolaidd ac yn gywir.

### Monitro a Gwerthuso

- Bod yn gyfrifol am gasglu adborth a chanlyniadau
- Creu systemau ar gyfer casglu adborth ar wahanol lefelau
- Cwblhau adroddiadau monitro misol
- Gweithio gyda'r Gwerthuswr Allanol a rhoi'r wybodaeth ofynnol
- Sicrhau bod cofnodion yn gyfredol ac yn gywir yn unol â Pholisi GDPR Mind Conwy

### Dull Cefnogol:

- Cynnig dull tosturiol a meddalach o ymdrin â chymorth iechyd meddwl.
- Annog unigolion i wneud newidiadau rhagweithiol i gefnogi eu hiechyd meddwl.
- Cynnig darpariaeth anghlinigol i apelio at gynulleidfa ehangach

### Gweithio Hyblyg:

- Gweithio oriau hyblyg i ddarparu ar gyfer apwyntiadau y tu allan i oriau 9-5 traddodiadol, gan gynnwys gyda'r nos ac ar y penwythnos.

## Manyleb y Person

### Hanfodol:

1. Profiad ym maes cymorth iechyd meddwl neu faes cysylltiedig.
2. Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu cadarn.
3. Gallu datblygu cynlluniau gweithredu personol.
4. Profiad o ymgysylltu â'r gymuned a rhwydweithio.
5. Sgiliau trefnu rhagorol a'r gallu i reoli llwyth gwaith.
6. Gallu cadw cofnodion cywir a chynnal cronfeydd data yn fedrus.
7. Hyblygrwydd i weithio oriau anhraddodiadol.
8. Ymrwymiad i werthoedd a chenhadaeth Mind Conwy.

### Dymunol:

1. Bod yn gyfarwydd â dulliau a thechnegau asesu iechyd meddwl.
2. Profiad blaenorol mewn rôl gymunedol.
3. Gwybodaeth am adnoddau a sefydliadau cymunedol lleol.
4. Gallu siarad Cymraeg.

# Y Broses Gwneud Cais

Rydyn ni'n gwybod bod ffurflenni cais yn cymryd amser i'w llenwi, ac efallai eich bod chi hefyd yn poeni nad yw eich sgiliau a'ch profiad yn addas. Os hoffech chi gael sgwrs am y swydd cyn gwneud cais, mae croeso i chi ein ffonio ni.

Rydyn ni'n croesawu amrywiaeth ac yn deall y byddwn, drwy fod yn sefydliad cynhwysol sy'n cydnabod gwahanol safbwyntiau, yn gallu darparu gwasanaethau rhagorol. Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein holl weithwyr yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal yn y gwaith ac i hyrwyddo tegwch i bawb o ran iechyd corfforol a meddyliol.

Rydyn ni eisiau gwneud ein rolau mor hygyrch ag y gallwn i'r ystod ehangaf posibl o ymgeiswyr, felly mae'r sgyrsiau hyn yn rhoi cyfle i chi ofyn cwestiynau, i weld a yw eich sgiliau a'ch profiad yn addas, ac i gael gwybod mwy am y broses gwneud cais.

Trefnwch sgwrs dros y ffôn gyda ni cyn i chi wneud cais er mwyn i ni allu trafod y swydd gyda chi, a sut mae eich sgiliau a'ch profiad yn cyd-fynd â'r disgrifiad swydd a manyleb y person. Gallwn hefyd drafod sut mae llenwi'r ffurflen gais.

Ar ôl i chi gyflwyno eich ffurflen gais, byddwn yn cymharu eich cais â'r hyn rydyn ni'n chwilio amdano gan ddefnyddio manyleb y person. Os byddwch yn addas, byddwn yn cysylltu â chi am gyfweliad.

## Manylion cyswllt ar gyfer y sgwrs gychwynnol:

Denise.roberts@conwymind.org.uk

## Dylid anfon ffurflenni cais wedi'u llenwi ar e-bost i:

Denise.roberts@conwymind.org.uk

## Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw:

Hanner dydd, 21st Hydref 2024

## Dyddiad y Cyfweliadau:

Dyddiad i'w gadarnhau – Cynhelir y cyfweliadau wyneb yn wyneb yn Uned 5325, Parc Busnes Gogledd Cymru, Abergele, Conwy, LL22 8LJ

# Yr hyn y gall ein staff ei ddisgwyl wrth weithio gyda ni

Rydyn ni'n cynnig amrywiaeth o fuddion ar ôl i chi gwblhau eich cyfnod prawf yn llwyddiannus:

**Gweithio hybrid** – Mae'r rhan fwyaf o'n swyddi yn cynnig trefniadau gweithio hybrid, ar wahân i ambell i swydd sydd wedi'i lleoli'n gyfan gwbl yn y swyddfa. Fel arfer, disgwylir i rai o'n staff hybrid gyflawni rhywfaint o waith yn y swyddfa, sef rhwng 1 a 2 ddiwrnod yr wythnos fel arfer. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth yw gofynion eich swydd yn y cyfweliad. Os yw'n well gennych weithio yn y swyddfa drwy'r amser, mae hyn yn bosib hefyd.

**Cymorth Staff** – Rydyn ni'n cynnig rhaglen cymorth i weithwyr er mwyn cefnogi staff, yn ogystal â sgyrsiau ac adolygiadau chwarterol. Mae gennym hefyd arweinydd lles staff sy'n ymwneud â gwella lles staff.

**Gwyliau Blynyddol** – 27 diwrnod o wyliau blynyddol (ac eithrio gwyliau banc). Ar ôl cwblhau 2 flynedd o wasanaeth di-dor ym Mind Conwy, mae gan weithwyr hawl i gael diwrnod ychwanegol o wyliau blynyddol y flwyddyn hyd at uchafswm o 32 diwrnod. Mae pob absenoldeb yn cael ei gyfrifo pro rata ar gyfer gweithwyr rhan amser. Rydyn ni hefyd yn cynnig absenoldeb tosturiol ac arbennig ychwanegol.

**Cyfraniad pensiwn hael** – Mae Mind Conwy yn talu 7% o gyfraniad pensiwn cyflogwr.

**Gweithio mewn sefydliad sy'n seiliedig ar werthoedd** – Rydyn ni bob amser yn ceisio datblygu a dod o hyd i ffyrdd o weithredu ein gwerthoedd. Mae hyn yn golygu weithiau y byddwn yn gwneud pethau'n anghywir, a byddwn i gyd yn dysgu gyda'n gilydd.

# Welcome to Conwy Mind!

In this pack you should find all the information you need to find out what we are about.

This includes:

- More about us, what we believe in and our values
- Our application process
- The job description and person specification
- What our staff can expect from working with us

## Our Organisation

Conwy Mind is a leading mental health charity based in Abergele, affiliated to National Mind covering Conwy County. We are working to reduce the stigma of mental health diagnosis and support people with mental health conditions to create a pathway to recovery. Through education and support we aim to improve people's awareness of how to be proactive in looking after their mental health and wellbeing.

Our staff are true ambassadors for the organisation, are enthusiastic and proud to work for Conwy Mind. They are positive, confident and are always willing to help and work as part of the team to achieve our purpose. Our culture is all about trust, creativity and working together as a team. Staff are encouraged to be themselves, and use their own initiative and ideas, in making decisions. We love to develop our people, providing training and stretching opportunities, encouraging career progression.

This role will be based from offices in Abergele.

## Our Strategic Objectives:

Our Strategic Objectives are to:

- Reach as many people as possible: Making sure people have a better understanding of mental health and how they can support themselves and others.
- Raise awareness and tackle stigma across our communities.
- Develop and expand services for children and young people aged from 11 to 25 and those who support them.
- Build a sustainable organisation which is fit for the future and best placed to respond to opportunities ahead.

## Our Values

What our values mean to us.

- We put people first.
- We're stronger together
- We speak up for what's right
- We never stop learning
- We demand better for mental health

What people say about us:

*"I would like to thank the counsellor for all her support and time and understanding. She was very professional, and it helped so much, I couldn't have got through the last months without her appointments and time and encouragement"*

*"The course itself exceeded my expectations, it was very informative, lots of material to digest. The course trainers were very engaging with us to ensure we were familiar with all the material that we were learning. I will be recommending this course to my NHS manager for other members to attend it"*

*"Its been a real help, my wellbeing, relationships and mindset have improved massively. The CCBT has taught me the tools I didn't realise I needed. My husband and daughter have noticed a great difference in me too and I am just in general more positive about stuff"*

*"Thank you SO much for all of your help; I appreciate and recognise you going out of your way and going the extra mile for me so, so much, and it really means the world and makes a difference knowing there's someone with me fighting my corner and helping me get the assistance I need"*

*"I felt safe and listened to. The group was very respectful of one another's views and experiences, I'm looking forward to becoming a peer support group now"*

## Changing Minds:

Are you passionate about mental health and early intervention? Join us in our exciting new initiative, Changing Minds, dedicated to transforming how people perceive and manage their mental well-being.

Changing Minds is a project funded through the National Lottery Community Fund for 3 years. Changing Minds is focused on providing early intervention for mental health, aimed at encouraging individuals to proactively care for their mental health, much like they would for their physical health. We believe that mental health check-ups should be as routine and accessible as blood pressure checks or general health screenings.

Our mission is to help individuals recognise and address mental health concerns before they escalate to the point of needing GP intervention. Through education, support, and community engagement, we aim to promote a culture where mental health is prioritized and maintained with the same importance is placed om mental health as physical health.

Changing Minds is about breaking down the stigma around mental health, which we know exists and is often a barrier to people accessing support.

### Why Join Us:

By becoming a part of the Changing Minds team, you will:

- **Make a Difference:** Play a crucial role in early intervention, helping individuals maintain their mental well-being and prevent the escalation of mental health issues.
- **Innovate:** Work within a dynamic team dedicated to creating new strategies and tools for mental health and wellbeing.
- **Grow Professionally:** Develop your skills in mental health support, community outreach, and early intervention practices.
- **Supportive Environment:** Be part of a compassionate and collaborative team committed to making mental health support accessible and normalised.
- We want to change communities, making it easier for people to feel comfortable, creating compassionate communities.

## Wellness Check Worker – Mental Health MOTs

Salary Grade/ Rate: £23,598 FTE, £15,732 Actual Salary
Location: Unit 5325, North Wales Business Park, Abergele, Conwy, LL22 9HR
Hours: Full Time – 18hrs x 2 posts available or 1 x 37.5hrs full time post
Annual Leave: 35 days pro rata (including bank holidays)
Responsible to: Team Lead – Wellness Check
Contract: Fixed term for 3 years

# Role Overview:

The Wellness Check Worker - Mental Health MOTs will be responsible for delivering mental health wellness checks. This role involves conducting assessments, developing action plans with individuals, signposting to community resources, and maintaining accurate records. The Wellness Check Worker will have a strong presence in the community, promoting the service and networking with other organizations.

## Key Responsibilities:

### Delivery of Wellness Checks:

- Work alongside Team Lead to develop processes and procedures for the mental health MOTS/Wellness checks.
- Conduct mental health assessments with individuals through scheduled appointments.
- Develop personalised action plans to support individuals in improving their mental health.
- Provide follow-up checks to monitor progress and adjust action plans as needed.
- Build a toolkit of support to draw on in sessions, being knowledgeable about what other support in the community is available

### Community Engagement and Promotion:

- Actively seeking out people less likely to engage with mental health services including harder to reach groups across Conwy County.
- Maintain a key presence in the community, linking with other organisations to promote the Changing Minds service.
- Support the promotion of the service through networking and community events.
- Provide information about mental health and well-being to the community.

### Case Management:

- Manage and be responsible for a personal caseload, ensuring each client receives tailored support.
- Signpost clients to relevant organisations and community groups for additional support.
- Maintain accurate and up-to-date records of client interactions and progress.
- Ensure the client database is updated regularly and accurately.

### Monitoring and Evaluation

- Responsible for collecting feedback and outcomes
- Establish systems for the collection of feedback at different levels
- Complete monthly monitoring report
- Work with the External Evaluator and provide required information
- Ensure records are up to date and accurate in line Conwy Mind’s GDPR Policy

### Supportive Approach:

- Offer a compassionate and softer approach to mental health support.
- Encourage individuals to make proactive changes to support their mental health.
- Offer a non-clinical delivery to appeal to a wider audience

### Flexible Working:

- Work flexible hours to accommodate appointments outside traditional 9-5 hours, including evenings and weekends.

## Person Specification

### Essential:

9. Experience in mental health support or a related field.
10. Strong interpersonal and communication skills.
11. Ability to develop personalized action plans.
12. Experience in community engagement and networking.
13. Excellent organizational skills and the ability to manage a caseload.
14. Proficiency in maintaining accurate records and databases.
15. Flexibility to work non-traditional hours.
16. Commitment to Conwy Mind's values and mission.

### Desirable:

5. Familiarity with mental health assessment tools and techniques.
6. Previous experience in a community-based role.
7. Knowledge of local community resources and organizations.
8. Ability to speak Welsh.

## Our Application Process

We know application forms take ages to fill in, and you may also be worried that your skills and experience might not be a good fit. If you would like to have a conversation about the role before you apply, please call us.

We embrace diversity and understand that being an inclusive organisation, recognising different perspectives, will enable us to provide excellent services. We are committed to ensuring all our employees are treated fairly and equitably at work and promoting equity in physical and mental health for all.

We absolutely want to make our roles as accessible as we can to the widest range of applicants, so these conversations give you the opportunity to ask questions, check your skills and experience against the role, and find out more about the application process.

Book a phone conversation with us before you apply, and we will talk you through the role, how your skills and experience might fit our job description and person specification and talk you through how to complete the application form.

Once you have submitted your application form, we will compare your application to what we are looking for with our person specification, and if they're a good fit we'll contact you for an interview.

## Contact details for initial conversation:

Denise.roberts@conwymind.org.uk mailto:recrutiment@conwymind.org.uk

## Completed application forms to be emailed to:

Denise.roberts@conwymind.org.uk

## Closing date for Applications:

October 21st, 2024

## Interview Dates:

Date to be confirmed – Interviews will be carried out face-to-face at Unit 5325, North Wales Business Park, Abergele, Conwy, LL22 8LJ

# What our staff can expect from working with us

We offer a range of benefits following successful completion of your probation period:

Hybrid working - Most of our roles offer hybrid working arrangements, apart from a few fully office-based roles. There is an expectation of some office-based work in our hybrid roles, but this is usually between 1-2 days a week. Please check your role requirements at interview. If you prefer to be fully office based, you also have this option.

Staff Support - We offer an employee assistance programme to support staff, as well as catch ups and quarterly reviews. We also have a staff wellbeing lead who is involved in improving staff wellbeing.

Annual leave - 27 days annual leave (excl. bank holidays). On completing 2 years' continuous service at Conwy Mind, employees are entitled to an additional 1-day annual leave per year up to a maximum of 32 days. All leave is pro-rata for part time employees. We also offer additional compassionate and special leave.

Generous pension contribution - Conwy Mind pay 7% employer pension contribution.

Working in a values-based organisation - We are constantly trying to evolve and find ways to live our values. This means sometimes we will all get it wrong, and we will all learn together.